General Pharmaceutical Council

Ymgynghoriad ar safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol

Mawrth 2018

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn **communications@pharmacyregulation.org** os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2018

Cynnwys

Cynnwys 4

Ynglŷn â'r CFfC 5

Rhagair 6

Trosolwg 7

Adran 1: Cyflwyniad 9

Adran 2: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol 20

Adran 3: ymateb i'r ymgynghoriad 36

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad 37

Cwestiynau'r ymgynghoriad 40

Monitro cydraddoldeb 47

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu 49

Ynglŷn â'r CFfC

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Ein gwaith yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau o'r cyhoedd drwy gynnal safonau ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif waith yn cynnwys:

- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr, technegwyr fferyllol a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
- cadw cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu bodloni drwy gydol eu gyrfa
- ymchwilio pryderon nad yw gweithwyr proffesiynol fferyllol yn bodloni ein safonau, a gweithredu i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- cynnal arolygiadau ar fferyllfeydd er mwyn gwirio eu bod yn bodloni ein safonau

Rhagair

Mae fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol eisoes yn chwarae rhan hollbwysig mewn darparu gofal o ansawdd uchel i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau iechyd ym Mhrydain Fawr. Mae fferyllwyr wedi gallu hyfforddi ac ymarfer fel rhagnodwyr annibynnol am dros ddegawd bellach, ond mae'r galw amdanynt wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Hefyd, mae polisïau'r llywodraeth a'r galw sy'n newid o du gwasanaethau iechyd a chleifion ledled Prydain Fawr yn awgrymu y bydd yr angen am fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn parhau i dyfu.

Er mwyn dod yn fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, rhaid i fferyllwyr gwblhau addysg a hyfforddiant sy'n rhoi'r wybodaeth, yr agwedd a'r ymddygiad angenrheidiol i ymgymryd â'r rôl yn llwyddiannus a darparu gofal diogel ac effeithiol i'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Gan fod y galw am fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sydd wedi hyfforddi'n dda wedi cynyddu, mae darparwyr cyrsiau wedi bod yn ehangu eu darpariaeth i gwrdd â'r galw. Fel y rheoleiddiwr, mae gennym gyfrifoldeb i wneud yn siŵr bod y ddarpariaeth hon yn addas at y diben.

Ochr yn ochr â chynnydd yn nifer y fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, mae'r rôl rhagnodi wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar y dechrau roedd rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr yn arbenigedd gweddol gul. Ond rydym wedi dysgu gan ein hymchwil ein hunain bod fferyllwyr wedi ehangu eu rôl unwaith eu bod wedi cymhwyso. Mae nifer ohonynt nawr yn gweithio fel rhagnodwyr cyffredinol mewn practisau meddygon teulu, adrannau achosion brys, ar-lein ac mewn lleoliadau eraill.

Mewn llawer o achosion mae hyn mewn ymateb uniongyrchol i fentrau'r llywodraeth. Yn sgil y newidiadau hyn, rydym yn gwneud gwelliannau i'r safonau ar gyfer hyfforddi fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol er mwyn gwneud yn siŵr bod y cyrsiau'n addas at y diben a bod y deilliannau dysgu a geir ynddynt wedi'u canolbwyntio'n glir ar y rôl rhagnodi bresennol.

Mae'r safonau a gyflwynir i ymgynghori arnynt yn y ddogfen hon ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn rhan o gyfres o safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer aelodau o'r tîm fferyllol. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn cynnig moderneiddio hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol. Gwneir hyn er mwyn rhoi ystyriaeth i ddatblygiadau diweddar, ac er mwyn rhoi iddynt y wybodaeth, yr agwedd a'r ymddygiad fydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal o ansawdd uchel yn llwyddiannus.

Newidiadau pwysig eraill i'r safonau yw:

- rydym yn cyflwyno cynigion i ganiatáu i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol profiadol (a rhagnodwyr annibynnol eraill, yn cynnwys meddygon) i weithredu fel goruchwylwyr rhagnodi practis, a
- rydym yn cynnig gwella'r dull o ddewis rhagnodwyr annibynnol dan hyfforddiant drwy ganolbwyntio ar wybodaeth a sgiliau ymgeiswyr a pha mor addas ydynt i hyfforddi fel rhagnodwyr annibynnol.

Rydym yn argymell y newidiadau hyn mewn ymateb i adborth yr ydym wedi ei dderbyn gan

ystod eang o randdeiliaid fel rhan o'n paratoad ar gyfer yr ymgynghoriad hwn.

Yn yr ymgynghoriad hwn gobeithiwn glywed gan gymaint o bobl a sefydliadau â phosibl ynglŷn â'n cynigion a byddwn yn defnyddio'r hyn a glywn i siapio ein safonau dros y misoedd nesaf.

Nigel Clarke
Cadeirydd

Duncan Rudkin
Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Trosolwg

Rydym yn ymgynghori ar y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol hyd Ddydd Mercher 6 Mehefin 2018. Croesawn farn pawb sydd â diddordeb, ond mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gan fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol presennol, fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi, darparwyr cyrsiau rhagnodi annibynnol a fferyllwyr sydd â diddordeb mewn dod yn rhagnodwyr.

Mae tair adran i'r ddogfen ymgynghori hon:

- Adran 1: Cyflwyniad i'r safonau
- Adran 2: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol
- Adran 3: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Ein hadroddiad ar yr ymgynghoriad hwn

Unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori yn dod i ben byddwn yn dadansoddi'r ymatebion yr ydym yn eu derbyn. Bydd ein cyngor llywodraethu yn derbyn y dadansoddiad mewn cyfarfod yn ail hanner 2018. Bydd yn rhoi ystyriaeth i'r ymatebion wrth ystyried y safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol terfynol ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac esboniad o'r penderfyniadau a wnaed. Gallwch weld hwn ar ein gwefan **www.pharmacyregulation.org**

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad mewn nifer o wahanol ffyrdd. Gallwch lenwi'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i **www.pharmacyregulation.org/PIPconsultation** a llenwi fersiwn ar-lein yno.

Os ydych yn llenwi'r holiadur yn y ddogfen hon, anfonwch ef at:

consultations@pharmacyregulation.org gyda'r pwnc 'Ymgynghoriad ar ragnodwyr annibynnol'

neu gallwch ei bostio atom yn:

Independent prescribers consultation response
Education Team
General Pharmaceutical Council
25 Canada Square
London E14 5LQ

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych bryderon neu sylwadau yr hoffech eu gwneud yn benodol am y broses ymgynghori, anfonwch hwy at:

feedback@pharmacyregulation.org

neu postiwch hwy atom yn:

Governance Team
General Pharmaceutical Council
25 Canada Square
London E14 5LQ

Peidiwch ag anfon ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

Adran 1: Cyflwyniad

1.1. Cyd-destun

Mae fferyllwyr wedi bod yn rhagnodwyr annibynnol ers 2006, ond yn ystod y pump i chwe blynedd diwethaf y mae'r galw a'r cyfleoedd ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol wedi tyfu'n gyflymach. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y mentrau polisi fferyllol cenedlaethol ac yn nifer y fferyllwyr sy'n gwneud cais i hyfforddi fel rhagnodwyr annibynnol[1].

Mae fferyllwyr sy'n gweithio fel rhagnodwyr annibynnol yn rhan o newid ehangach lle mae fferylliaeth yn chwarae rhan fwy arwyddocaol mewn gofal llinell flaen sy'n wynebu'r cyhoedd. Defnyddir fferyllwyr fwyfwy i gefnogi cleifion. Mae hyn yn cynorthwyo i wneud y defnydd mwyaf effeithiol a chost effeithiol o feddyginiaethau ac ysgafnhau'r pwysau mewn rhannau hollbwysig o'r system gofal iechyd - yn arbennig mewn adrannau achosion brys ac mewn gofal sylfaenol (er enghraifft mewn meddygfeydd meddygon teulu, canolfannau meddygol a chartrefi gofal).

Mae strategaethau fferyllol cenedlaethol yn amrywio ar draws Prydain Fawr. Ond yr hyn sy'n gyson yw'r gydnabyddiaeth bod cyflogi fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol ar draws lleoliadau gofal iechyd yn:

- gwneud y defnydd gorau o wybodaeth a sgiliau rhagnodi fferyllwyr, ac yn
- ategu sgiliau aelodau eraill timau gofal iechyd, y gofynnir iddynt gydweithio mewn ffyrdd mwyfwy agos er mwyn creu gofal integredig i bobl.

Er mwyn sicrhau'r manteision hyn, mae'r tair gwlad wedi bod yn comisiynu mwy o leoedd i fferyllwyr ar gyrsiau rhagnodi annibynnol. Mewn nifer o achosion mae hyn wedi arwain at ddisgwyliad y bydd hyfforddiant rhagnodi annibynnol yn dod yn rhan arferol o ddatblygiad gyrfa.

Ers 2006 bu mewid ym mhroffil hyfforddiant fferyllwyr i ddod yn ragnodwyr annibynnol. I ddechrau, cafwyd diddordeb gan fferyllwyr oedd â nifer o flynyddoedd o brofiad o ymarfer clinigol, a oedd am ychwanegu rhagnodi at bortffolio sgiliau clinigol a diagnostig oedd eisoes wedi'i ddatblygu'n dda. Yn fwy diweddar bu ymgeiswyr yn fferyllwyr iau oedd eisiau uwchsgilio fel rhagnodwyr mewn cam llawer cynharach yn eu gyrfaoedd. Rydym hefyd yn gweld rhagnodi cyffredinol mewn practisau meddygon teulu ac adrannau achosion brys yn dod yn feysydd rhagnodi poblogaidd, yn hytrach na'r rhai mwy traddodiadol ac arbenigol a ffafriwyd mewn blynyddoedd cynharach. Mae hyn yn ymateb, yn rhannol, i fentrau strategol sydd wedi'u cynllunio i feithrin gallu rhagnodi gan fferyllwyr cyffredinol mewn rhanbarthau ledled Prydain Fawr.

[1] Ar y llaw arall, nid yw nifer y fferyllwyr-ragnodwyr atodol wedi cynyddu ac ni chynigir cyrsiau rhagnodi atodol ar gyfer fferyllwyr mwyach.

1.2 Rôl y fferyllydd-ragnodydd annibynnol

Mae fferyllwyr yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau ac mewn amrywiol ffyrdd. Mae hyn yn wir hefyd am fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol. Er ein bod yn derbyn y bydd arferion rhagnodi yn amrywio, mae'r canlynol yn greiddiol iddo:

> "... mae'r rhagnodydd yn cymryd cyfrifoldeb am asesiad clinigol y claf, [penderfynu ar] diagnosis, a'r rheolaeth glinigol sydd ei hangen yn ogystal â'r cyfrifoldeb am ragnodi a phriodoldeb unrhyw ragnodi." *Canolfan Ragnodi Genedlaethol, 2005*

Credwn mai'r diffiniad hwn sy'n disgrifio orau'r fferyllydd-ragnodydd annibynnol a bod yn rhaid i gyrsiau addysg a hyfforddiant ganolbwyntio ar hyn.

1.3. Newidiadau allweddol

Rydym yn cynnig tri newid allweddol i addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol:

1. Diwygio'r gofynion mynediad ar gyfer hyfforddiant
2. Cyflwyno deilliannau dysgu
3. Cyflwyno 'ymarferwyr rhagnodi dynodedig'

1.3.1. Diwygio'r gofynion mynediad ar gyfer hyfforddiant

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau fod wedi gweithio mewn maes clinigol am ddwy flynedd cyn y gallant hyfforddi i ragnodi yn y maes hwnnw. Rhaid iddynt hefyd gael y wybodaeth a'r sgiliau fferyllol perthnasol i gefnogi eu hyfforddiant rhagnodi. Yr hyn yr ydym wedi'i glywed gan rai darparwyr hyfforddiant yw bod gormod o bwyslais ar y gofynion amser a dim digon o bwyslais ar wybodaeth a sgiliau perthnasol. Hefyd, nid oes gennym dystiolaeth i awgrymu bod 'amser mewn gwasanaeth' yn creu ymgeiswyr o'r ansawdd cywir i hyfforddi.

Am y rhesymau hyn rydym yn cynnig dileu'r gofyniad amser dwy flynedd. Dylid ei ddisodli gyda phroses gais effeithiol, ond nid beichus, lle caiff profiad ymgeiswyr ei wirio i sicrhau eu bod yn barod i hyfforddi. Golyga hyn y bydd yr amser sydd ei angen ar ymgeiswyr unigol i ddangos eu bod wedi bodloni gofynion mynediad ar gwrs yn amrywio yn dibynnu ar eu profiad a'u sgiliau. Gallai fod yn fwy, neu'n llai, na dwy flynedd.

Mae'r math o dystiolaeth a fyddai'n briodol i ddangos bod ymgeisydd yn addas i hyfforddi fel rhagnodydd annibynnol yn cynnwys:

1. tystiolaeth o brofiad o wynebu cleifion
2. profiad o ragnodi clinigol gan eraill
3. cyfranogi mewn ymyriadau clinigol a gweithgareddau optimeiddiad meddyginiaethau i wella canlyniadau cleifion
4. profiad o elfennau amlddisgyblaeth rhagnodi

Canllaw yn unig yw'r rhestr uchod. Darparwr y cwrs sydd â'r cyfrifoldeb am wirio bod ymgeisydd yn addas i hyfforddi, fel ag y mae hi nawr (ac fel y mae ar gyfer unrhyw gwrs addysg a hyfforddiant). Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo prosesau ymgeisio ar gyfer cwrs i fod yn gyson ar draws darparwyr byddwn yn rhoi canllawiau ynglŷn â'r math o dystiolaeth briodol mewn dogfen ar wahân - fframwaith tystiolaeth (gweler 1.6, Gwaith pellach).

O safbwynt ymarferol, os yw'r gweithgareddau hyn wedi cael eu cynnwys yn barod mewn ceisiadau datblygiad proffesiynol parhaus neu weithgaredd ail-ddilysu, gallant gael eu defnyddio fel rhan o'r dystiolaeth i gefnogi'r cais.

Rydym yn sylweddoli y gallai dileu'r gofyniad amser beri pryder i rai pobl. Felly, fel dull diogelwch ychwanegol byddwn yn ychwanegu darpariaeth benodol i'n safonau y dylai darparwyr cyrsiau wrthod ymgeiswyr sydd heb brofiad addas. Wedi ystyried y dystiolaeth, rydym wedi dod i'r casgliad y bydd dileu'r gofyniad amser yn rhoi'r pwyslais ar y man y dylai fod: ar ansawdd profiad blaenorol nid swm y profiad.

1.3.2. Cyflwyno deilliannau dysgu

Rydym wedi datblygu deilliannau dysgu newydd ar gyfer y safonau. Bydd cyflwyno deilliannau dysgu yn dod â'r safonau hyn yn unol ag arfer cyfoes a hefyd ein safonau eraill, sy'n pwysleisio deilliannau – beth mae pobl yn gallu ei wneud – yn hytrach na mewnbynnau (er enghraifft, oriau astudio).

Bydd y deilliannau dysgu yn disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau fydd gan hyfforddai ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Rydym yn credu eu bod yn ddigonol i ddisgrifio beth sy'n rhaid i gwrs ei gynnwys ac nid ydym yn credu bod angen cynhyrchu maes llafur manwl yn ogystal. Mae'r dull hwn yn gyson â'n dull ar gyfer setiau newydd eraill o safonau addysg a hyfforddiant.

Mae'r deilliannau dysgu yn gyffredinol, nid yn benodol, a gellir defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau sydd ynddynt mewn unrhyw faes rhagnodi. Golyga hyn y gall cyrsiau ddewis canolbwyntio ar faes arbenigol cymharol gul, neu rai ehangach megis arfer cyffredinol neu ddamweiniau ac achosion brys. Mae hyn yn adlewyrchu realaeth arfer rhagnodi cyfoes.

1.3.3. Cyflwyno 'ymarferwyr rhagnodi dynodedig'

Ar hyn o bryd, dim ond meddygon sy'n cael goruchwylio hyfforddeion yn ffurfiol fel ymarferwyr meddygol dynodedig (DMP). Mewn gwirionedd, tra bod DMP yn cymeradwyo hyfforddeion, mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn cynnig cefnogaeth a chyngor i hyfforddeion tra eu bod ar eu cyrsiau, gan weithiau ddefnyddio eu profiad eu hunain fel rhagnodwyr.

Rydym yn cynnig yn y dyfodol y gallai fferyllwyr sy'n hyfforddi i fod yn fferyllwyr-ragnodwyr

annibynnol gael eu goruchwylio'n ffurfiol gan nid dim ond DMP, ond hefyd gan fferyllwyr-ragnodwyr eraill a rhagnodwyr profiadol eraill. Credwn ei bod hi'n bwysig bod hyfforddeion yn penderfynu pa fath o oruchwyliwr rhagnodi sydd ganddynt, mewn ymgynghoriad â darparwr eu cwrs. Er enghraifft, pe bai hyfforddai'n teimlo mai cael ei oruchwylio gan feddyg fyddai'n fwyaf defnyddiol iddo ef/iddi hi yna dylai gael ei oruchwylio gan feddyg, ond os bydd yn teimlo mai fferyllydd fyddai'n fwyaf priodol, mae hyn nawr yn opsiwn.

Byddai'r newid hwn yn dileu unrhyw rwystr posibl i ehangiad nifer y fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol a lleihau'r pwysau ar ddarparwyr cyrsiau ac, yn y pen draw, darparwyr gwasanaeth. Byddai rhoi'r cyfrifoldeb hwn i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n ymarfer hefyd yn rhoi'r cyfle iddynt hyfforddi'r genhedlaeth nesaf a rhannu eu profiad yn y gweithle.

Mewn cydnabyddiaeth o'r newid, ein bwriad yw addasu'r teitl DMP i DPP - Ymarferwr Rhagnodi Dynodedig. Er y bydd y teitl yn newid, ni fydd y rôl. Bydd DPP yn cymeradwyo hyfforddeion yn ogystal ag asesu eu cymhwysedd yn erbyn gofynion darparwyr y cwrs a rhoi cefnogaeth a chyngor iddynt. Yn ogystal â bod â DPP, gall hyfforddeion barhau i fanteisio ar gefnogaeth a chyngor gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, yn cynnwys rhagnodwyr eraill.

Byddwn yn rhoi gofynion ar waith i'r goruchwylwyr wneud yn siŵr bod ganddynt y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i allu goruchwylio'n effeithiol, asesu cymhwysedd, a chymeradwyo hyfforddai (gweler 1.6, Gwybodaeth bellach).

Mae'r newidiadau hyn a gynigir wedi'u seilio ar y gwaith yr ydym wedi ei wneud hyd yma i ddatblygu'r safonau, a grynhoir yn yr adran sy'n dilyn.

1.4 Gwaith a wnaed hyd yma i ddatblygu'r safonau

Er mwyn ein helpu i ddatblygu'r safonau hyn, rydym wedi gweithio'n eang gydag ystod o randdeiliaid.

Wrth eu datblygu rydym wedi rhoi ystyriaeth i ystod eang o safbwyntiau. Dechreuom drwy ystyried adborth perthnasol a dderbyniasom o'n papurau trafod a'n hymgynghoriadau *Tomorrow's pharmacy team* (2015), *Standards for pharmacy professionals* (2016) a *Supervising independent prescribers in training* (2016) a hefyd canlyniadau ein harolwg yn *Prescribers' survey report* (2016). Yn fwy diweddar rydym wedi cael dros 40 o gyfarfodydd cyn-ymgynghori gyda'r holl ysgolion fferylliaeth sy'n cynnal cyrsiau rhagnodi annibynnol, darparwyr cyrsiau rhagnodi annibynnol eraill a rhanddeiliaid eraill. Caiff canlyniadau'r cyfarfodydd hyn eu hadlewyrchu yn y newidiadau yr ydym yn eu cynnig.

Cyn ysgrifennu'r safonau newydd hyn penderfynom gyhoeddi papur trafod ar un elfen benodol o gyrsiau rhagnodi annibynnol; goruchwyliaeth fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi. Cyflwynir crynodeb o ganlyniadau'r papur trafod hwnnw isod.

1.4.1 Goruchwylio rhagnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi: papur trafod

Fel y disgrifir uchod, ar hyn o bryd mae'n rhaid i hyfforddeion gael eu goruchwylio gan ymarferwyr meddygol dynodedig yn ystod eu hyfforddiant. Rydym yn cynnig y gallai hyfforddeion gael eu goruchwylio yn y dyfodol nid yn unig gan feddygon ond hefyd gan fferyllwyr-ragnodwyr a rhagnodwyr profiadol eraill. Byddem yn rhoi gofynion ar waith ar gyfer goruchwylwyr, i wneud yn siŵr bod ganddynt y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i allu goruchwylio hyfforddai yn effeithiol.

Yn 2016 cyhoeddom bapur trafod ***Supervising independent prescribers in training*** Gallwch ***lawrlwytho'r adroddiad llawn ar ein hymgynghoriad papur trafod*** o'n gwefan. Y cynnig y gwnaethom ei brofi yn y papur trafod oedd a ellid defnyddio rhagnodwyr annibynnol sy'n brofiadol ac wedi'u hyfforddi'n addas fel goruchwylwyr.

Roedd yr ymatebion a dderbyniwyd gennym yn cefnogi'n gryf ein cynigion. Cytunodd yr ymatebwyr y dylai hawliau goruchwylio gael eu hymestyn i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sydd â phrofiad addas a hefyd rhagnodwyr annibynnol eraill sydd â phrofiad addas. Thema gyffredin drwy'r holl ymatebion oedd pwysigrwydd:

- bod unrhyw un sy'n gweithredu fel goruchwyliwr rhagnodi practis yn cael ei hyfforddi'n briodol ac yn brofiadol i weithredu yn y rôl honno, a
- bod pobl yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi yn eu rôl newydd

Rydym yn cytuno gyda'r pwyntiau hyn ac rydym wedi adeiladu'r gofynion hynny i mewn i'n safonau.

Rydym yn cymryd yr ymatebion i olygu bod cefnogaeth glir i'n cynigion. Felly, rydym wedi adeiladu'r ddarpariaeth ar gyfer rhagnodwyr annibynnol anfeddygol i weithredu fel goruchwylwyr rhagnodi practis i'n safonau fel safon ar wahân: gweler Rhan 2 Parth 9 – Ymarferwyr rhagnodi dynodedig. O gofio lefel uchel y gefnogaeth ar gyfer ein cynigion, nid

yw'n fwriad gennym i ail-ymgynghori ar yr egwyddor o newid gofynion goruchwylio. Fodd bynnag, byddwn yn gofyn cwestiwn ynglŷn ag a oes gan Barth 9 y camau diogelwch perthnasol i sicrhau cyflwyniad a defnydd llwyddiannus ymarferwyr rhagnodi dynodedig.

Rydym hefyd yn cynnig ein bod yn trin y newid hwn a'i gyflwyniad fel mater ar wahân i'r safonau eraill. Golyga hyn y gall gael ei gyflwyno cyn cyrsiau newydd sy'n seiliedig ar y set lawn o safonau. Nod hyn yw caniatáu i'r cyrsiau presennol ehangu eu cronfa o oruchwylwyr ymarfer unwaith bod y safonau wedi'u cytuno a bod canllawiau diwygiedig ar gyfer goruchwylwyr wedi'u cyhoeddi, ond heb o reidrwydd fod wedi gwneud cais am achrediad cwrs llawn. Ein rhesymeg yw os yw darparwr cwrs wedi cael ei ail-achredu'n ddiweddar, baich diangen fyddai iddynt orfod ailgyflwyno cais dim ond er mwyn caniatáu ar gyfer cyflwyniad ymarferwyr rhagnodi dynodedig.

Fel dull diogelwch, bydd darparwyr cyrsiau sy'n dymuno gweithredu Parth 9 yn destun ymarferiad achredu seiliedig ar bapur gyda chyffyrddiad ysgafn gan y CFfC, lle bydd yn rhaid iddynt ddangos sut y byddant yn gweithredu'r safon unigol honno.

1.4.2 Ymgysylltiad cyn-ymgynghori

Ym misoedd Hydref a Thachwedd 2017 cynhaliom gyfres o gyfarfodydd cyn-ymgynghori gydag ysgolion fferylliaeth, darparwyr cyrsiau rhagnodi annibynnol a rhanddeiliaid eraill. Gwnaethom drafod ein cynigion ar gyfer newid goruchwyliaeth ac roedd cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r hyn yr oeddem yn ei gynnig. Un pwynt pwysig a godwyd gyda ni gan y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom gwrdd â hwy oedd y dylem adeiladu mecanweithiau i'n safonau ar gyfer sicrhau bod ymarferwyr rhagnodi dynodedig wedi'u hyfforddi'n addas ac yn brofiadol i weithredu yn y rôl honno. Rydym wedi ymateb i'r pwynt hwn drwy ei wreiddio yn Safon 9.

Pwynt arall a godwyd gyda ni gan ddarparwyr cyrsiau rhagnodi annibynnol oedd bod y gofyniad amser dwy flynedd yn amhriodol, am dri rheswm:

1. Efallai bod ymgeisydd wedi gweithio mewn maes am ddwy flynedd ond efallai na fydd wedi caffael y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hyfforddi fel rhagnodydd annibynnol.
2. Weithiau mae darparwyr yn teimlo rheidrwydd i dderbyn ymgeiswyr ar sail amser mewn gwasanaeth yn hytrach na phrofiad a enillwyd.
3. Nid oedd cyfiawnhad gwrthrychol dros gael dwy flynedd (neu unrhyw gyfnod amser arall) fel y gofyniad amser.

Mae'r rhain yn bwyntiau cryf ac rydym wedi eu hystyried yn ofalus. Rydym yn sylweddoli y gallai dileu'r gofyniad amser gyflwyno risg y gallai rhywun wneud cais i hyfforddi cyn eu bod yn barod (neu'n cael eu hannog i wneud). Fodd bynnag, teimlwn y gellir mynd i'r afael â hyn drwy gyflwyno gofyniad mwy llym i brofiad ymgeisydd gael ei wirio, er mwyn sicrhau ei fod yn addas a pherthnasol a'i fod yn barod i hyfforddi. Byddwn yn cyflwyno cynigion i wneud y newid hwn. Hefyd, awgrymwyd i ni yn hytrach nac chanolbwyntio ar 'wybodaeth fferyllol' ymgeisydd, byddai'n fwy priodol i werthuso ei 'brofiad clinigol a therapiwtig'. Rydym yn cytuno gyda hyn, oherwydd ei fod yn pwysleisio defnydd gwybodaeth yn hytrach na

dim ond gwybodaeth. Rydym wedi gwneud y newid hwnnw yn y safonau.

1.5 Cysylltiadau i safonau rhagnodi a phroffesiynau eraill

1.5.1 Safonau eraill

Mae'r deilliannau dysgu sydd yn y safonau hyn wedi'u seilio ar y cymwyseddau rhagnodi sydd yn *A Competency Framework for All Prescribers* (2016). Datblygwyd y fframwaith gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol, yn gweithio gyda chyrff sy'n cynrychioli'r holl broffesiynau rhagnodi gofal iechyd. Set o gymwyseddau ydyw i ragnodwyr sy'n ymarfer ac, felly, sy'n rhy eang ar gyfer rhagnodwyr sy'n hyfforddi. Fodd bynnag, mae'n fan cychwyn addas a rhesymegol ar gyfer datblygu deilliannau dysgu ar gyfer cwrs sy'n hyfforddi fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol.

Rydym hefyd wedi rhoi ystyriaeth i setiau eraill o safonau rhagnodi wrth ddrafftio ein rhai ni. Yn benodol, rydym wedi edrych ar y safonau newydd a gynigiwyd yn 2017 gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Yn debyg i ni, mae'r NMC yn cynnig caniatáu i holl ragnodwyr anfeddygol (yn cynnwys fferyllwyr) weithredu fel goruchwylwyr rhagnodi ar gyfer nyrsys sy'n hyfforddi.

1.5.2 Hyfforddi gyda phroffesiynau eraill

Un o elfennau pwysicaf rhagnodi yw ei natur amlddisgyblaethol. Mae'n anarferol i ragnodwyr ragnodi ar eu pen eu hunain. Bydd yn rhaid iddynt o leiaf ddiweddaru cofnodion cleifion y bydd pobl eraill yn eu defnyddio. Yn fwy arferol, mae rhagnodi gan fferyllwyr yn digwydd fel rhan o becyn gofal a gyflwynir gan nifer o weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Dyna pam

fod llawer o fferyllwyr yn hyfforddi fel rhagnodwyr ochr yn ochr â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, yn aml nyrsys, ar gyrsiau hyfforddi amlddisgyblaeth. Yr adborth yr ydym wedi'i dderbyn gan fferyllwyr-ragnodwyr yw bod dysgu gan a gyda gweithwyr proffesiynol eraill wedi bod yn un o elfennau mwyaf gwerthfawr eu hyfforddiant.

1.6 Gwaith pellach

1.6.1 Fframwaith tystiolaeth

Pan wnaethom ysgrifennu ein safonau addysg a hyfforddiant cychwynnol ar gyfer technegwyr fferyllol, cynhyrchom fframwaith tystiolaeth i gyd-fynd â hwy. Roedd hwn yn rhoi mwy o wybodaeth am y safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau ac fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â hwy. Byddwn yn gwneud yr un peth ar gyfer y set hon o safonau.

Bydd y fframwaith tystiolaeth yn cynnwys mwy o wybodaeth am:

- rai o'r deilliannau dysgu, yn arbennig y rheini sy'n fwy agored i'w dehongli nag eraill
- gofynion mynediad, yn cynnwys enghreifftiau o feini prawf ansawdd, a
- dewis a sicrhau ansawdd ymarferwyr rhagnodi dynodedig

1.6.2 Canllawiau ar gyfer DPP

Rydym yn sylweddoli bod angen canllawiau ar gyfer yr ymarferwyr rhagnodi dynodedig newydd. Rydym yn trafod gyda rhanddeiliaid beth yw'r ffordd orau i'w creu.

Bydd y canllawiau'n cynnwys:

- cymwyseddau craidd ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, a
- chanllawiau ar gyfer darparwyr cyrsiau ar werthuso pa mor addas yw DPP arfaethedig

1.7 Strwythur a chynnwys y safonau

Mae'r safonau mewn dwy ran:

Rhan 1: Safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol - deilliannau dysgu
Mae'r rhan hon yn cynnwys y wybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth ac ymddygiadau sydd eu hangen gan fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol a anodir gan y CFfC. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn mae angen i ni wirio mai'r deilliannau dysgu yw'r rhai cywir ac rydym wedi gofyn cwestiwn am hyn.

Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau addysg a hyfforddiant
Mae'r rhan hon yn cynnwys y gofynion ar gyfer cwrs sy'n cyflwyno'r deilliannau dysgu yn Rhan 1. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn mae angen i ni wirio mai'r safonau hyn yw'r rhai cywir ac rydym wedi gofyn cwestiwn am hyn.

Er eu bod ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol, mae'r ddwy ran wedi'u cysylltu'n agos i'w gilydd. Dyma pam eu bod wedi cael eu cyflwyno mewn un ddogfen.

Unwaith y cytunir ar y safonau byddwn yn cyhoeddi canllawiau arnynt ar gyfer darparwyr cyrsiau mewn fframwaith tystiolaeth.

1.7.1 Rhan 1: Safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol – deiliannau dysgu

Cyflwynir Rhan 1 y safonau hyn fel deilliannau dysgu - hynny yw y wybodaeth, sgiliau a phriodoleddau y mae'n rhaid i hyfforddai eu dangos ar ddiwedd cwrs [2]. Fel set, mae'r deilliannau dysgu yn disgrifio fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n addas i ymarfer unwaith ei fod wedi'i anodi.

Grwpiwyd y deilliannau dysgu o dan bedwar parth, sef:

1. gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn
2. proffesiynoldeb
3. gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
4. cydweithio

Mae'r deilliannau dysgu yn 'proffesiynoldeb' a 'cydweithio' yn fwy cyffredinol. Mae'r deilliannau dysgu yn 'gwybodaeth a sgiliau proffesiynol' yn canolbwyntio ar fecaneg y rôl. Mae'r rheini sydd yn 'gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn' yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau yng nghyd-destun darpariaeth gofal, ac yn arbennig y rôl y mae rhagnodi yn ei chwarae yn hynny.

1.7.2 Cysylltu addysg a hyfforddiant ac ymarfer

Mae pob un o'r pedwar pennawd wedi'u cysylltu i safonau o'r **safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol**, ac mae naw ohonynt, er mwyn dangos y cysylltiad rhwng addysg a hyfforddiant ac ymarfer.

Yn gyffredinol, mae'r safonau'n cyfeirio ar 'ofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn' ac yn cyfeirio at 'unigolyn' - golyga hyn 'yr unigolyn sy'n derbyn gofal'. Fodd bynnag, lle bo hyn yn fwy priodol rydym yn cyfeirio at gleifion, gofalwyr neu gynrychiolwyr cleifion.

[2] Caiff cyrsiau addysg a hyfforddiant yn arwain at gymhwyster i gofrestru eu hachredu gan y CFfC.

Person-centred care			Professionalism		Professional knowledge and skills		Collaboration	
Gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn	Cyfathrebu effeithiol	Cyfrinachedd a phreifatrwydd	Cyfrinachedd a phreifatrwydd	Barn broffesiynol	Codi llai ynglŷn â phryderon	Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol	Gweithio mewn partneriaeth	Arweinyddiaeth

Mae pob un o'r pedwar pennawd wedi'i gysylltu i safonau o'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.

1.7.3 Cyd-destun rhagnodi wrth hyfforddi

Er mwyn hyfforddi fel rhagnodydd annibynnol, rhaid i fferyllydd ddewis maes ymarfer y bydd yn dysgu dod yn rhagnodydd ynddo. Rhaid i hwn fod yn faes y mae wedi gweithio ynddo ac yn ei ddeall.

Tra'n hyfforddi caiff ei oruchwylio gan ragnodydd arall sy'n brofiadol yn y maes hwnnw.

Nid ydym yn gyfarwyddol ynglŷn â'r maes y mae rhywun yn rhagnodi ynddo tra'n hyfforddi. Gallai fod yn un arbenigol, megis gorbwysedd neu HIV, neu'n un mwy cyffredinol, megis rhagnodi mewn practis meddyg teulu neu adran achosion brys.

1.7.4 Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau addysg a hyfforddiant

Mae Rhan 2 y safonau'n canolbwyntio ar nodweddion allweddol cyrsiau sy'n cyflwyno'r deilliannau dysgu a geir yn Rhan 1. Caiff addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol ei gyflwyno mewn nifer o amrywiol ffyrdd, felly mae'n bwysig nodi bod y safonau wedi'u hysgrifennu yn y fath fodd fel nad ydynt yn gyfarwyddol ynglŷn â chyflwyniad.

Gan dderbyn y gall cyflwyniad a dyluniad amrywio, mae tair dogfen sy'n hanfodol ar gyfer pob cwrs:

- strategaeth addysgu a dysgu, er mwyn disgrifio sut y caiff y deilliannau dysgu yn Rhan 1 eu cyflwyno
- strategaeth asesu, er mwn disgrifio sut y caiff y deilliannau dysgu yn Rhan 1 eu hasesu, a

- cynllun rheoli, er mwyn disgrifio pwy sy'n gyfrifol am beth wrth gyflwyno cwrs a beth yw'r cysylltiadau rhwng dysgu a gwaith

Yn y safonau rydym wedi bod yn glir ynglŷn â beth sy'n rhaid i'r dogfennau hyn ei gynnwys, ond yn y fath fodd fel y gellid cyflwyno, asesu a rheoli cyrsiau mewn gwahanol ffyrdd.

Rydym wedi defnyddio'r un dull strwythurol ar gyfer Rhan 2 y safonau drwy eu grwpio'n barthau:

1. Gofynion dewis a mynediad
2. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
3. Rheolaeth, adnoddau a gallu
4. Monitro, adolygu a gwerthuso
5. Dyluniad a chyflwyniad cwrs
6. Dysgu wrth ymarfer
7. Asesu
8. Cefnogaeth a'r profiad dysgu
9. Ymarferwyr rhagnodi dynodedig

Ym mhob parth ceir un neu ragor o safonau wedi'u dilyn gan nifer o ofynion sy'n rhaid iddynt fod ar waith er mwyn bodloni safon.

Mae'r adran hon yn dangos testun y safonau arfaethedig

Adran 2: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol

Rhagymadrodd

Mae gan fferyllwyr rôl hollbwysig mewn darparu gofal a chynorthwyo pobl i gynnal a gwella eu hiechyd, diogelwch a'u lles. Rôl gynyddol ganolog ar gyfer fferyllwyr yw un y rhagnodydd annibynnol. Mae bod yn rhagnodydd annibynnol yn golygu y gallwch ragnodi meddyginiaeth heb fod angen ymgynghori â rhagnodydd arall yn gyntaf.

Ni all fferyllwyr ragnodi pan fyddant yn cofrestru gyntaf. Rhaid iddynt ddilyn cwrs addysg a hyfforddiant ychwanegol cyn y gallant ddechrau rhagnodi. Rhan-amser yw'r cyrsiau ac fe'u cynhelir gan brifysgolion. Rhan allweddol o'r cyrsiau hyn yw i ymgynghori a rhagnodi o dan oruchwyliaeth rhagnodydd profiadol.

Cyn hyfforddi i ragnodi, mae'n rhaid i fferyllwyr fod â phrofiad o weithio mewn maes clinigol penodol. Y maes hwn yw'r un y bydd y fferyllydd yn dysgu sut i ragnodi ynddo.

Mae'r safonau hyn yn disgrifio:

- y wybodaeth a'r sgiliau y bydd fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn eu cyflawni yn ystod eu haddysg a'u hyfforddiant, ac
- elfennau eraill o'r cwrs y byddant yn ei ddilyn

Unwaith bod fferyllydd wedi cwblhau ei gwrs yn llwyddiannus gall wneud cais i'r CFfC ar gyfer anodiad i gael mynediad ar gofrestr y CFfC. Mae'r anodiad yn gofnod cyhoeddus y gall ymarfer fel rhagnodydd annibynnol.

Y rôl rhagnodi

Caiff rhagnodi ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol gyd-destunau ond mae'r canlynol yn ganolog iddo:

> "...mae'r rhagnodydd yn cymryd cyfrifoldeb am asesiad clinigol y claf, [penderfynu ar] diagnosis, a'r rheolaeth glinigol sydd ei hangen yn ogystal â'r cyfrifoldeb am ragnodi a phriodoldeb unrhyw ragnodi." *Canolfan Ragnodi Genedlaethol, 2005*

Er mwyn cwblhau'r cwrs rhagnodi annibynnol yn llwyddiannus rhaid i'r hyfforddeion fod wedi dangos hyn.

Strwythur y safonau

Mae'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol mewn dwy ran:

1. Deilliannau dysgu
2. Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau rhagnodi annibynnol

Mae Rhan 1, y deilliannau dysgu, yn disgrifio beth y bydd fferyllwyr yn gallu ei wneud wedi cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Cyflwynir y deilliannau dysgu mewn pedwar parth:

1. gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn
2. proffesiynoldeb
3. gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
4. cydweithio

Mae Rhan 2, y safonau ar gyfer cwrs rhagnodi annibynnol, yn disgrifio'r gofynion ar gyfer unrhyw ddarparwr cyrsiau a hefyd gofynion mynediad ar gyfer cwrs. Mae naw parth i'r safonau:

Parth 1 – Gofynion dewis a mynediad

Parth 2 – Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Parth 3 – Rheolaeth, adnoddau a gallu

Parth 4 – Monitro, adolygu a gwerthuso

Parth 5 – Dyluniad a chyflwyniad cwrs

Parth 6 – Dysgu wrth ymarfer

Parth 7 – Asesu

Parth 8 – Cefnogaeth a'r profiad dysgu

Parth 9 – Ymarferwyr rhagnodi dynodedig

Rhan 1: Safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol - deilliannau dysgu

Safon: Wedi cwblhau eu haddysg a'u hyfforddiant yn llwyddiannus, bydd fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi wedi cyflawni'r deilliannau dysgu canlynol yn y safonau hyn

Lefel astudiaeth

Lefel Meistr, fel y diffinnir yn y fframweithiau cymwysterau cenedlaethol, yw lefel yr astudiaeth ar gyfer cwrs fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol.

Isafswm gofynion o ran amser dysgu

Mae addysgu, dysgu ac asesu yn faterion ar gyfer darparwyr cyrsiau, ond rhaid bod o leiaf:

- 26 diwrnod o weithgareddau dysgu strwythuredig, a
- 90 awr o ddysgu wrth ymarfer

Gweithgareddau dysgu

Diffinnir 'gweithgareddau dysgu' gan ddarparwyr cyrsiau. Gallant gynnwys gwaith mewn dosbarth, astudiaeth wedi'i chyfarwyddo, astudiaeth wedi'i hunan-gyfarwyddo a gweithgareddau dysgu o bell.

Dysgu wrth ymarfer

Amser 'Dysgu wrth ymarfer' yw pan fo fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn ymarfer a datblygu eu sgiliau clinigol, diagnostig a rhagnodi o dan oruchwyliaeth gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae hyn yn cynnwys eu hymarferydd rhagnodi dynodedig (sy'n gyfrifol am gymeradwyo fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi fel rhagnodydd cymwys).

Parthau astudiaeth

Cyflwynir deilliannau dysgu o dan bedwar parth:

1. gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn
2. proffesiynoldeb
3. gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
4. cydweithio

Mae'r parthau a'r deilliannau dysgu yr un mor bwysig.

Deilliannau dysgu

Yn y safonau hyn defnyddir Triongl Miller i osod lefel y deilliant. Hierarchaeth gwybodaeth a chymhwysedd yw Triongl Miller sy'n disgrifio pedair lefel o ddeilliant:

1. 'gwybod' (bod â gwybodaeth)
2. 'gwybod sut' (gallu defnyddio gwybodaeth)
3. 'dangos sut' (dangos cymhwysedd mewn modd cyfyngedig)
4. 'gwneud' (dangos cymhwysedd dro ar ôl tro ac yn ddiogel)

Mae'r deilliannau yn y safonau hyn wedi eu gosod ar y lefel gywir ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi.

Y deilliannau dysgu yw:

Parth 1: Gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn

Bydd fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi yn gallu:

1.	Deall effaith seicolegol a chorfforol penderfyniadau rhagnodi ar bobl	**Gwybod sut**
2.	Cydnabod amrywiaeth a gwerthoedd a chred pobl wrth wneud penderfyniadau rhagnodi	**Gwneud**
3.	Dangos technegau ystyried hanes priodol i gael gwybodaeth wrth wneud penderfyniadau gwybodus am amrywiaeth o bobl sydd â chyflyrau syml a chymhleth	**Gwneud**
4.	Deall rôl y rhagnodydd mewn gwneud penderfyniadau am bobl na fydd efallai'n gallu gwneud penderfyniadau cwbl wybodus am eu hanghenion iechyd	**Gwybod sut**
5.	Gweithio gyda chleifion, gofalwyr a chynrychiolwyr cleifion er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus sy'n parchu dymuniadau'r cleifion	**Gwneud**

Parth 2: Proffesiynoldeb

Bydd fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi yn gallu:

1. Dangos dealltwriaeth feirniadol o'u rôl eu hunain a rôl pobl eraill fel rhagnodwyr, a sut mae'r rôl hon yn cyfrannu at dimau aml-broffesiynol yn darparu gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn	**Gwneud**
2. Adnabod eu rôl eu hunain fel rhagnodydd cyfrifol ac atebol sy'n deall goblygiadau cyfreithiol a moesegol	**Gwneud**
3. Deall y fframweithiau deddfwriaethol a moesegol sy'n gysylltiedig â rhagnodi	**Gwybod sut**
4. Adnabod a rheoli ffactorau a allai ddylanwadu'n ormodol ar benderfyniadau rhagnodi	**Gwneud**
5. Deall y fframweithiau moesegol a deddfwriaeth mewn rhannu gwybodaeth gyfrinachol	**Gwybod sut**
6. Deall y fframweithiau cyfreithiol a moesegol a'r risgiau mewn rhagnodi o bell (yn cynnwys ar-lein)	**Gwybod sut**
7. Defnyddio deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n gysylltiedig â gofal iechyd	**Gwneud**
8. Ystyried a datblygu eu hymarfer rhagnodi eu hunain er mwyn sicrhau ei fod yn gyfystyr ag arfer gorau	**Gwneud**
9. Dangos dealltwriaeth o economeg iechyd wrth wneud penderfyniadau rhagnodi	**Gwneud**
10. Deall trefn lywodraethu clinigol y rhagnodydd, a allai hefyd fod mewn sefyllfa i gyflenwi meddyginiaethau i bobl	**Gwybod sut**

Parth 3: Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol

Bydd fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi yn gallu:

1. Gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ym mhob agwedd o ragnodi, dad-ragnodi ac ymyriadau anfferyllol	**Gwneud**
2. Dangos dealltwriaeth feirniadol o effaith ffarmacolegol, ffarmacinetig a ffarmadynamig meddyginiaethau a dyfeisiau wrth wneud penderfyniadau rhagnodi	**Gwneud**
3. Dangos sgiliau clinigol a diagnostig mewn lleoliadau clinigol sy'n briodol i'w hyfforddiant	**Gwneud**
4. Dangos dealltwriaeth pwysigrwydd cadw cofnodion manwl a'r ddeddfwriaeth berthnasol	**Gwneud**
5. Dehongli ymchwiliadau, canlyniadau a data perthnasol er mwyn gwneud penderfyniadau am bobl	**Gwneud**
6. Deall yr ystod o systemau sydd ar gael i ragnodi meddyginiaethau mewn gwahanol leoliadau clinigol (gallai hyn gynnwys TG, cofnodion digidol a rhai a rennir, ac e-ragnodi)	**Gwybod sut**
7. Defnyddio egwyddorion monitro a rheoli effeithiol i wella canlyniadau cleifion	**Gwneud**
8. Dangos dealltwriaeth gynhwysfawr o sgîl-effeithiau, gwrth-arwyddion ac adweithiau anffafriol cyffuriau meddyginiaethau o fewn eu hymarfer rhagnodi, wedi'i ganolbwyntio ar ofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn	**Gwneud**

Parth 4: Cydweithio

Bydd fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi yn gallu:

1. Gweithio'n adeiladol gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, gan ddeall eu rolau yn y broses ragnodi	**Gwneud**
2. Cydnabod ymarfer gweithwyr proffesiynol eraill a mynegi pryderon pan fo rhagnodi amhriodol neu anniogel yn digwydd	**Gwneud**
3. Deall eu rôl a'u cyfrifoldebau eu hunain, a rolau a chyfrifoldebau pobl eraill, mewn diogelu plant ac oedolion agored i niwed	**Gwybod sut**
4. Deall pryd a lle i atgyfeirio pobl yn briodol	**Gwybod sut**
5. Cydweithio gyda chleifion, gofalwyr a chynrychiolwyr cleifion i'w hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli cyflyrau	**Gwneud**
6. Gweithredu technegau cyfathrebu priodol er mwyn cael gwybodaeth gan unigolion sydd ddim yn gwybod neu'n dawedog ynglŷn â'u hamgylchiadau	**Gwneud**
7. Adnabod pryd i atgyfeirio neu i geisio arweiniad gan aelod arall o'r tîm gofal iechyd, arbenigwr neu awdurdod priodol	**Gwneud**

Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau addysg a hyfforddiant

Mae Rhan 2 yn cynnwys y gofynion mynediad ar gyfer cwrs fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol wedi'i ddilyn gan naw safon a'u meini prawf cysylltiedig.

Gofynion mynediad

Y gofynion mynediad ar gyfer cwrs fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yw'r canlynol:

a. Bod ymgeiswyr yn gofrestredig fel fferyllydd gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) neu, yng Ngogledd Iwerddon, gyda Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon (PSNI).

b. Bod ymgeiswyr ag enw da gyda'r CFfC a/neu'r PSNI ac unrhyw reoleiddiwr gofal iechyd arall y maent wedi cofrestru gyda hwy.

c. Bod ymgeiswyr wedi nodi maes ymarfer clinigol neu therapiwtig i ddatblygu ymarfer rhagnodi annibynnol ynddo. Rhaid iddynt hefyd fod â phrofiad clinigol neu therapiwtig perthnasol yn y maes hwnnw, sy'n addas i weithredu fel sail ar gyfer ei hymarfer rhagnodi tra'n hyfforddi.

d. Fel rhan o'r broses ymgeisio, bod ymgeiswyr yn cyflwyno eu profiad clinigol a therapiwtig perthnasol, a rhaid i ddarparwyr werthuso perthnasedd profiad ymgeisydd i ofynion y cwrs.

e. Rhaid i ymgeiswyr gael ymarferydd rhagnodi dynodedig sydd wedi cytuno i oruchwylio eu dysgu wrth ymarfer. Ymarferydd rhagnodi dynodedig yw rhagnodydd annibynnol sy'n ddigon profiadol a chymwys i gyflawni'r rôl oruchwylio hon. Er y gallai ymgeisydd gael ei oruchwylio gan fwy nag un person, rhaid i un rhagnodydd fod yn ymarferydd rhagnodi dynodedig. Yr ymarferydd rhagnodi dynodedig yw'r person a fydd yn ardystio bod fferyllwyr llwyddiannus yn gymwys i ymarfer fel rhagnodwyr annibynnol.

f. Rhaid i ymarferydd rhagnodi dynodedig yr ymgeisydd fod yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon gyda hawliau rhagnodi annibynnol cyfreithiol.

g. Rhaid i ddarparwyr cyrsiau wneud yn siŵr bod yr holl ofynion mynediad wedi'u bodloni cyn dyddiad dechrau'r cwrs y mae ymgeisydd wedi cofrestru arno.

h. Os, yn dilyn gwerthusiad llawn o'r cais, bod darparwr cwrs yn penderfynu nad yw fferyllydd yn ddigon profiadol i hyfforddi fel rhagnodydd annibynnol, dylai wrthod y cais, gan roi ei resymau.

Parth 1 – Gofynion dewis a mynediad

Safon 1: Rhaid i brosesau dewis fod yn agored, clir a diduedd, cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a sicrhau bod ymgeiswyr yn bodloni gofynion mynediad y cwrs.

Meini prawf i fodloni'r safon hwn

1.1 Rhaid i'r meini prawf dewis fod yn glir a rhaid iddynt gynnwys bodloni'r holl ofynion mynediad yn y safonau hyn.

1.2 Rhaid i ddewiswyr ddefnyddio'r meini prawf dewis yn gyson, mewn modd diduedd ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol

1.3 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau roi canllaw clir ar y math o brofiad y dylai fferyllydd ei gael cyn gwneud cais am y cwrs. Rhaid i'r canllaw hwn fod ar gael i ymgeiswyr cyn eu bod yn gwneud cais.

Parth 2 – Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Safon 2: Rhaid i bob agwedd o addysg a hyfforddiant rhagnodi annibynnol i fferyllwyr fod yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chydymffurfio â phob deddfwriaeth berthnasol.

Meini prawf i fodloni'r safon hwn

2.1 Rhaid bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u gwreiddio yn nyluniad a chyflwyniad y cwrs.

2.2 Rhaid defnyddio data cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddylunio a chyflwyno cyrsiau a'r profiad dysgu.

2.3 Rhaid gwneud addasiadau rhesymol i gyflwyniad cwrs er mwyn cynorthwyo fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi sydd ag anghenion penodol i fodloni'r deilliannau dysgu.

2.4 Gellir addasu'r addysgu, dysgu ac asesu er mwyn bodloni 2.3, ond ni ellir addasu'r deilliannau dysgu.

Parth 3 – Rheolaeth, adnoddau a gallu

Safon 3: Rhaid bod cyrsiau wedi'u cynllunio a'u cynnal gan ddefnyddio prosesau tryloyw sy'n dangos pwy sy'n atebol am beth. Rhaid i'r cyfleusterau addysg a hyfforddiant, seilwaith, arweinyddiaeth, staffio a chefnogaeth staff fod yn ddigonol i ddarparu'r cwrs.

Meini prawf i fodloni'r safon hwn

3.1 Rhaid i bob cwrs gael ei gefnogi gan gynllun rheoli diffiniedig y mae'n rhaid iddo gynnwys:

- atodlen o rolau a chyfrifoldebau, yn yr amgylcheddau dysgu, addysgu ac ymarfer
- llinellau atebolrwydd, yn yr amgylcheddau dysgu, addysgu ac ymarfer
- strwythurau a phrosesau diffiniedig er mwyn rheoli cyflwyniad, a
- prosesau ar gyfer nodi a rheoli risg

3.2 Rhaid bod cytundebau ar waith yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pawb sy'n gysylltiedig yng nghyflwyniad cwrs.

3.3 Rhaid bod cytundebau dysgu ar waith gyda'r fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n cwmpasu'r holl amgylcheddau dysgu, addysgu ac ymarfer, yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd

3.4 Ym mhob amgylchedd dysgu addysgu ac ymarfer, rhaid bod:

- gweithwyr proffesiynol gyda chymwysterau a phrofiad priodol
- digon o staff o broffesiynau perthnasol i gyflwyno'r cwrs a chefnogi dysgu fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi
- digon o adnoddau i gyflwyno'r cwrs
- cyfleusterau sy'n addas at y diben, a
- mynediad at adnoddau dysgu priodol

3.5 Rhaid i bawb sy'n gysylltiedig â rheoli a chyflwyno'r cwrs ddeall eu rôl a rhaid rhoi cefnogaeth iddynt i gyflawni eu gwaith yn effeithiol.

3.6 Rhaid i bob fferyllydd-ragnodydd annibynnol gael ei gefnogi fel dysgwr mewn amgylcheddau dysgu ac ymarfer. Rhaid bod systemau ar waith ar gyfer hyfforddi goruchwylwyr i gysylltu â darparwyr cyrsiau yn rheolaidd ynglŷn â chynnydd fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi mewn amgylcheddau dysgu ac ymarfer.

Parth 4 – Monitro, adolygu a gwerthuso

Safon 4: Rhaid monitro, adolygu a gwerthuso ansawdd cyrsiau mewn modd systematig a datblygiadol.

Meini prawf i fodloni'r safon hwn

4.1 Rhaid i bob elfen berthnasol cwrs gael eu monitro, eu hadolygu a'u gwerthuso yn systematig. Pan ganfyddir problemau rhaid eu dogfennu a rhaid delio â hwy o fewn amserlenni a gytunir.

4.2 Rhaid bod strwythur rheoli ansawdd ar waith sy'n nodi gweithdrefnau ar gyfer monitro a gwerthuso gydag amserlenni, yn cynnwys pwy sy'n gyfrifol am adrodd, adolygu a gweithredu pan fo hynny'n briodol.

4.3 Rhaid bod gweithdrefnau ar waith i fonitro a gwerthuso safon yr addysgu, dysgu a'r asesu er mwyn gwneud yn siŵr y cynhelir ansawdd ar draws pob amgylchedd dysgu

4.4 Rhaid i'r prosesau monitro ac adolygu cwrs roi ystyriaeth i'r amgylchedd allanol, yn arbennig fferyllfa, er mwyn gwneud yn siŵr bod cyrsiau'n parhau'n gyfoes wrth iddynt gael eu cyflwyno.

4.5 Rhaid i adborth ar gyfer fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi fod wedi'i wreiddio mewn prosesau monitro, adolygu a gwerthuso

4.6 Rhaid bod y sefydliad sy'n darparu wedi dilysu'r cwrs cyn gwneud cais i'r CFfC am achrediad.

Parth 5 – Dyluniad a chyflwyniad cwrs

Safon 5: Rhaid i gyrsiau ddatblygu ymddygiadau a'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen i fodloni'r deiliannau yn Rhan 1 y safonau hyn drwy strategaeth addysgu a dysgu gydlynol.

Meini prawf i fodloni'r safon hwn

5.1 Rhaid bod strategaeth addysgu a dysgu cwrs sy'n nodi sut y bydd fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi yn cyflawni'r deilliannau yn Rhan 1 y safonau hyn.

5.2 Rhaid i gyrsiau gael eu dylunio a'u cyflwyno gan ddefnyddio strategaethau sy'n integreiddio gwybodaeth a sgiliau rhagnodi, yn cynnwys sgiliau clinigol a diagnostig, gyda phrofiad sy'n bodoli eisoes fferyllwyr sy'n hyfforddi fel fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol.

5.3 Rhaid i bob darparwr cwrs fod â gweithwyr fferyllol proffesiynol, yn cynnwys fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, yn gysylltiedig yn nyluniad a chyflwyniad y cwrs.

5.4 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau ymgynghori ag ystod o randdeiliaid - yn cynnwys cleifion, y cyhoedd, darparwyr cyrsiau a chyflogwyr – i fireinio dyluniad a chyflwyniad y cwrs.

5.5 Rhaid diweddaru cyrsiau pan fo newidiadau sylweddol mewn ymarfer, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfoes.

5.6 Rhaid i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi ond ymgymryd â'r tasgau y maent yn gymwys ynddynt, neu y maent yn dysgu i fod yn gymwys ynddynt, fel na chyfaddawdir diogelwch cleifion

5.7 Rhaid i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi gael eu goruchwylio gan ddefnyddio mecanweithiau y cytunir arnynt ym mhob amgylchedd ymarfer clinigol er mwyn sicrhau bod gofal diogel, wedi'i ganoli ar yr unigolyn yn cael ei ddarparu bob amser.

5.8 Rhaid i reoliadau cwrs fod yn briodol ar gyfer cwrs sy'n arwain at anodiad proffesiynol. Hynny yw, mae'n rhaid iddynt flaenoriaethu diogelwch cleifion, ymarfer diogel ac effeithiol a sgiliau clinigol.

5.9 Rhaid bod systemau ar waith i sicrhau bod fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi yn deall pa fecanweithiau cymhwyster i ymarfer sy'n berthnasol iddynt hwy. Rhaid i bob darparwr cyrsiau a chyflogwyr fod â gweithdrefnau i ddelio â phryderon cymhwyster i ymarfer.

5.10 Rhaid rhoi sylw i bryder ynglŷn â fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi, rhagnodwyr annibynnol goruchwyliol neu'r amgylchedd dysgu cyn gynted â phosibl yn y fath fodd fel yr ymdrinnir ag achos y pryder.

Parth 6 – Dysgu wrth ymarfer

Safon 6: Rhaid i gyrsiau ddatblygu ymddygiadau a'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen i fodloni'r deiliannau yn Rhan 1 y safonau hyn mewn lleoliadau dysgu wrth ymarfer.

Meini prawf i fodloni'r safon hwn

6.1 Rhaid i ran o'r cwrs ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi ddigwydd mewn lleoliadau clinigol sydd â mynediad uniongyrchol at gleifion - y rhain yw lleoliadau 'dysgu wrth ymarfer'.

6.2 Yn y lleoliadau dysgu wrth ymarfer a ddisgrifir yn 6.1, bydd fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi yn rhagnodi o dan oruchwyliaeth ymarferydd rhagnodi dynodedig.

6.3 Os oes mwy nag un person yn gysylltiedig mewn goruchwylio fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi, rhaid i un rhagnodydd annibynnol gymryd y cyfrifoldeb am ei oruchwylio. Y person hwn fydd yr ymarferydd rhagnodi dynodedig ar gyfer y fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi.

6.4 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gytuno ar ymarferydd rhagnodi dynodedig gyda fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi, a chytuno bod ganddynt y cymwyseddau craidd i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

6.5 Yr ymarferydd rhagnodi dynodedig sy'n gyfrifol am gymeradwyo fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi fel un sy'n gymwys fel fferyllydd-ragnodydd annibynnol.

Parth 7 – Asesu

Safon 7: Rhaid i gyrsiau gael strategaeth asesu sy'n asesu 'r ymddygiadau proffesiynol a'r sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd eu hangen i fodloni'r deiliannau yn Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r strategaeth asesu asesu a yw ymarfer fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi yn ddiogel.

Meini prawf i fodloni'r safon hwn

7.1 Rhaid i gyrsiau fod â strategaeth asesu sy'n sicrhau bod asesiad yn gadarn, dibynadwy a dilys.

7.2 Darparwyr cyrsiau sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddeilliannau dysgu yn cael eu hasesu'n llawn, gan ddefnyddio dulliau priodol, a bod dysgu ac addysgu wedi'u halinio ag asesiad.

7.3 Rhaid i ddiogelwch cleifion ddod yn gyntaf bob amser, a rhaid i'r strategaeth asesu asesu a yw fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi yn ymarfer yn ddiogel.

7.4 Rhaid bod systemau monitro ar waith ym mhob amgylchedd dysgu. Mae'n rhaid i'r systemau asesu cynnydd fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi o ran bodloni'r deilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau hyn. Rhaid iddynt sicrhau bod ymarfer fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi yn ddiogel bob amser.

7.5 Rhaid bod cytundebau ar waith rhwng darparwyr cyrsiau ac ymarferwyr rhagnodi dynodedig sy'n disgrifio rolau a chyfrifoldebau o ran asesu fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi.

7.6 Rhaid i asesiadau gael eu cynnal gan bobl sydd wedi'u hyfforddi ac sydd â'r cymwysterau priodol ac sy'n gymwys i asesu perfformiad fferyllydd-ragnodydd annibynnol sy'n hyfforddi.

7.7 Waeth beth fo'u lleoliad, rhaid i bob asesiad gael ei sicrhau ar gyfer ansawdd gan y darparwyr cyrsiau.

7.8 Rhaid i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi gael adborth priodol ac amserol am eu perfformiad, er mwyn cefnogi eu datblygiad fel dysgwyr.

7.9 Rhaid i reoliadau asesu fod yn briodol ar gyfer cwrs sy'n arwain at anodiad proffesiynol. Hynny yw, rhaid iddynt flaenoriaethau diogelwch cleifion, ymarfer diogel ac effeithiol, a sgiliau clinigol a diagnostig.

7.10 Rhaid i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi lwyddo ym mhob asesiad crynodol cyn cael eu cymeradwyo.

7.11 Ar sail diogelwch cleifion, ni chaniateir iawndal na chydoddefiad ar gyrsiau ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi.

7.12 Ni ddylid pasio ymarfer anniogel a ddangosir gan fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi.

Parth 8 – Cefnogaeth a'r profiad dysgu

Safon 8: Rhaid i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi gael eu cefnogi ym mhob amgylchedd dysgu er mwyn datblygu fel dysgwyr yn ystod eu hyfforddiant.

Meini prawf i fodloni'r safon hwn

8.1 Rhaid bod ystod o fecanweithiau ar waith i gefnogi hyfforddeion i gyflawni'r deilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau hyn, gan gynnwys:

- ymsefydlu
- goruchwyliaeth effeithiol
- llwyth gwaith priodol a realistig
- cefnogaeth bersonol ac academaidd, a
- mynediad at adnoddau

8.2 Rhaid bod mecanweithiau ar waith i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi gwrdd yn rheolaidd â'u hymarferydd rhagnodi dynodedig ac eraill i drafod a dogfennu eu cynnydd fel dysgwyr.

8.3 Rhaid bod gweithdrefnau clir i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi fynegi pryderon. Rhaid delio ag unrhyw bryder yn brydlon, gyda chamau wedi'u dogfennu'n cael eu cymryd lle bo hynny'n briodol.

8.4 Rhaid i bawb sy'n cefnogi fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi roi ystyriaeth i ganllawiau'r CFfC ar diwtora ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn eu gwaith fel sy'n briodol.

Parth 9 – Ymarferwyr rhagnodi dynodedig

Safon 9: Rhaid i ymarferwyr rhagnodi dynodedig fod yn addas i ymgymryd â'r rôl honno a rhaid bod ganddynt hyfforddiant a phrofiad priodol.

Meini prawf i fodloni'r safon hwn

9.1 Rhaid bod gan ddarparwyr cyrsiau fecanweithiau priodol ar gyfer sicrhau bod ymarferwyr rhagnodi dynodedig yn addas i fod yn oruchwylwyr fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi.

9.2 Rhaid i ymarferwyr rhagnodi dynodedig arfaethedig fod â'r canlynol:

- cymhwysedd rhagnodi gweithredol yn y meysydd y byddant yn eu goruchwylio
- sgiliau clinigol a diagnostig priodol
- wedi mentora neu oruchwylio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, ac
- wedi asesu cymhwysedd clinigol a diagnostig mewn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill

9.3 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau ddarparu hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr rhagnodi dynodedig yn y meysydd canlynol:

- rôl rhagnodi annibynnol y fferyllydd
- y cwrs ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi y byddant yn gweithio arno, yn cynnwys ei ddeilliannau dysgu
- rôl ymarferwyr rhagnodi dynodedig o fewn y cwrs
- asesu perfformiad fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi
- rhoi adborth i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi
- cefnogi fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi, a
- mynegi pryderon

9.4 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gefnogi ymarferwyr rhagnodi dynodedig newydd pan fyddant yn gweithredu yn y rôl honno drwy roi mentor iddynt. Rhaid iddynt wneud hyn am o leiaf hyd y cwrs cyntaf y maent yn gweithredu fel goruchwylydd rhagnodi arno (ac am gyfnod hwy os bydd angen). Bydd mentoriaid yn gyfarwydd â'r cwrs a'r rôl ymarferydd rhagnodi dynodedig yng nghyd-destun y cwrs.

9.5 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau roi adborth i ymarferwyr rhagnodi dynodedig ynglŷn â'u perfformiad fel goruchwylwyr rhagnodi a threfnu hyfforddiant, cefnogaeth a datblygiad ychwanegol yn ôl yr angen.

Adran 3: ymateb i’r ymgynghoriad

Sut y byddwn yn defnyddio eich ymatebion

Yn dilyn yr ymgynghoriad byddwn yn cyhoeddi adroddiad sy’n crynhoi'r hyn a glywsom.

Os ydych chi’n ymateb fel unigolyn preifat ni fyddwn yn defnyddio eich enw na’n cyhoeddi ymatebion unigolion. Os byddwch yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn rhestru enw eich sefydliad ac efallai y byddwn yn cyhoeddi eich ymateb yn llawn oni bai eich bod yn dweud wrthym am beidio â gwneud hynny. Os ydych am i unrhyw ran o’ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech esbonio pam eich bod yn credu bod y wybodaeth a roddwyd gennych yn gyfrinachol. Efallai y bydd angen i’r CFfC ddatgelu gwybodaeth o dan y cyfreithiau sy’n ymdrin â mynediad at wybodaeth (fel arfer Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000). Os byddwch yn gofyn i ni gadw rhan neu’r cyfan o’ch ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn yn ddifrifol ac yn ceisio ei barchu ond ni allwn warantu y gellir cynnal y cyfrinachedd hwnnw ym mhob sefyllfa. Os byddwch yn e-bostio ymateb i’r ymgynghoriad a bod hyn wedi’i gwmpasu gan wadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ni fydd hyn ynddo’i hun yn rhwymol ar y CFfC.

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Ymateb i'r ymgynghoriad ar safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol

Yn gyntaf, hoffem ofyn i chi am ychydig o wybodaeth gefndir. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddeall barn grwpiau, unigolion neu sefydliadau penodol a'n galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

A ydych chi'n ymateb:

- ☐ fel unigolyn – ewch i adran A
- ☐ ar ran sefydliad – ewch i adran B

Adran A – Ymateb fel unigolyn

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw:

cyfeiriad:

e-bost:

Lle ydych chi'n byw?

- ☐ Lloegr
- ☐ Yr Alban
- ☐ Cymru
- ☐ Gogledd Iwerddon
- ☐ arall (rhowch fanylion)

A ydych chi'n ymateb fel:

- ☐ aelod o'r cyhoedd
- ☐ gweithiwr fferyllol proffesiynol – ewch i adran A1
- ☐ hyfforddai cyn-gofrestru
- ☐ myfyriwr
- ☐ arall (rhowch fanylion)

Adran A1 – Gweithwyr fferyllol proffesiynol

A ydych chi'n:

- ☐ fferyllydd
- ☐ technegydd fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau'r maes yr ydych yn gweithio'n bennaf ynddo:

- ☐ fferyllfa gymunedol
- ☐ fferyllfa ysbyty
- ☐ sefydliad gofal sylfaenol
- ☐ addysg a hyfforddiant fferylliaeth
- ☐ y diwydiant fferyllol
- ☐ arall (rhowch fanylion)

Adran B – Ymateb ar ran sefydliad

Dywedwch wrthym beth yw eich**:**

enw:

teitl eich swydd:

sefydliad:

cyfeiriad:

e-bost:

enw cyswllt ar gyfer ymholiadau:

A yw eich sefydliad yn:

- ☐ sefydliad fferyllol
- ☐ sefydliad sydd ddim yn un fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau eich sefydliad:

- ☐ corff neu sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol
- ☐ corff neu sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd
- ☐ corff neu sefydliad sy'n cynrychioli masnach neu ddiwydiant
- ☐ fferyllfa annibynnol (1-5 fferyllfa)
- ☐ fferyllfa luosog (6 neu ragor o fferyllfeydd)
- ☐ sefydliad neu grŵp GIG
- ☐ sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant
- ☐ adran neu sefydliad llywodraeth
- ☐ corff rheoleiddio
- ☐ arall (rhowch fanylion)

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Adran 1: Deilliannau dysgu

Fel rhan o'r adolygiad hwn i safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, rydym wedi datblygu set o ddeilliannau dysgu a ddylai ddisgrifio gwybodaeth, sgiliau a phriodoleddau cywir fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol.

C1: Gan ystyried y set lawn o ddeilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau addysg a hyfforddiant drafft hyn, i ba raddau ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r deilliannau dysgu mwyaf priodol ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno'n rhannol
- ☐ Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno'n rhannol
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Dim yn gwybod

C2: A oes unrhyw beth ar goll o'r deilliannau dysgu yn Rhan 1?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Dim yn gwybod

(Os ydych wedi ateb 'Nac oes' neu 'Dim yn gwybod', ewch i **gwestiwn 3**)

C2a: Ym mha rai o'r meysydd canlynol ydych chi'n credu bod rhywbeth ar goll? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn
- ☐ Proffesiynoldeb
- ☐ Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
- ☐ Cydweithio
- ☐ Arall (nodwch yn y gofod isod)

C2b: Rowch ddisgirfiad byr o'r bwlch neu'r bylchau yr ydych wedi eu canfod

C3: A oes unrhyw beth yn y deilliannau dysgu yn Rhan 1 a ddylai gael ei newid?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Dim yn gwybod

(Os ydych wedi ateb 'Nac oes' neu 'Dim yn gwybod', ewch i **gwestiwn 4**)

C3a: Rhowch fanylion y deilliannau dysgu y byddech yn eu newid a pham (os yn bosibl, rhowch rifau cyfeirnod y deilliannau dysgu)

C4: Rhowch unrhyw adborth arall yn esbonio eich ymatebion i'r cwestiynau ar y deilliannau dysgu (Pwysig: Rhowch adborth cadarnhaol a negyddol pa fo hynny'n berthnasol)

Adran 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau

Fel rhan o'r adolygiad hwn o safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, rydym wedi llunio set o safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau y ceir eu manylion yn Rhan 2. Mae'r safonau'n disgrifio'r gofynion ar gyfer cyrsiau sy'n darparu'r deilliant dysgu yn Rhan 1.

C5: Gan ystyried y set lawn o safonau yn Rhan 2, i ba raddau ydych chi'n credu mai'r rhain yw'r safonau priodol ar gyfer cwrs fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol?

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno'n rhannol
- ☐ Dim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno'n rhannol
- ☐ Anghytuno'n gryf
- ☐ Dim yn gwybod

C6: A oes unrhyw beth ar goll o'r safonau neu'r meini prawf yn Rhan 2?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Dim yn gwybod

(Os ydych wedi ateb 'Nac oes' neu 'Dim yn gwybod', ewch i **gwestiwn 7**)

C6a: Ym mha rai o'r meysydd canlynol ydych chi'n credu bod rhywbeth ar goll? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Parth 1 – Gofynion dewis a mynediad
- ☐ Parth 2 – Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- ☐ Parth 3 – Rheolaeth, adnoddau a gallu
- ☐ Parth 4 – Monitro, adolygu a gwerthuso
- ☐ Parth 5 – Dyluniad a chyflwyniad cwrs
- ☐ Parth 6 – Dysgu wrth ymarfer
- ☐ Parth 7 – Asesu
- ☐ Parth 8 – Cefnogaeth a'r profiad dysgu
- ☐ Parth 9 - Ymarferwyr rhagnodi dynodedig
- ☐ Arall (nodwch yn y gofod isod)

C6b: Rowch ddisgirfiad byr o'r bwlch neu'r bylchau yr ydych wedi eu canfod.

C7: A oes unrhyw beth yn y safonau neu'r meini prawf yn Rhan 2 a ddylai gael ei newid?

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes
- ☐ Dim yn gwybod

(Os ydych wedi ateb 'Nac oes' neu 'Dim yn gwybod', ewch i **gwestiwn 8**)

C7a: Rhowch fanylion y safonau neu'r meini prawf y byddech yn eu newid a pham (os yn bosibl, rhowch rifau cyfeirnod y safon neu'r meini prawf).

C8: Rhowch unrhyw adborth arall yn esbonio eich ymatebion i'r cwestiynau ar y safonau a'r meini prawf (Pwysig: Rhowch adborth cadarnhaol a negyddol pa fo hynny'n berthnasol)

Adran 3: Goruchwylio fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n ymarfer

Mewn **papur trafod a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016** gwnaethom ofyn a ddylai rôl ymarferydd meddygol dynodedig gael ei ymestyn i ganiatáu i ragnodwyr annibynnol anfeddygol sydd â phrofiad a chymwysterau addas weithredu fel goruchwylwyr ar gyfer elfen dysgu wrth ymarfer rhaglenni fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol. Y cwestiynau y gwnaethom eu gofyn oedd:

- a ddylai hawliau goruchwylio gael eu hymestyn i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol profiadol ac
- a ddylent gael eu hymestyn i ragnodwyr annibynnol profiadol eraill.

Adroddir ar yr ymatebion yn y ddogfen ymgynghori hon, ond yn gryno roedd cytundeb cryf gyda'r cynnig cyntaf a chytundeb clir gyda'r ail. Gyda'r mandad hwnnw, rydym wedi ysgrifennu parth newydd, Parth 9, ar gyfer grŵp estynedig o oruchwylwyr - ymarferwyr rhagnodi dynodedig.

C9a: A fydd Parth 9 yn sicrhau mai dim ond rhagnodwyr annibynnol profiadol ac sydd wedi'u hyfforddi'n briodol fydd yn gweithredu fel goruchwylwyr dynodedig ar gyfer elfen dysgu wrth ymarfer rhaglenni fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol?

- ☐ Bydd
- ☐ Na fydd
- ☐ Dim yn gwybod

C9b: Esboniwch eich ymateb

Adran 4: Amodau mynediad ar gyfer hyfforddiant

Un o'r amodau mynediad presennol ar gyfer hyfforddi fel fferyllydd-ragnodydd annibynnol yw bod yn rhaid bod y fferyllydd wedi gweithio mewn cyd-destun sy'n wynebu'r cleifion yn y DU am o leiaf dwy flynedd. Ar y pwynt hwn dylent fod wedi caffael y wybodaeth glinigol sydd ei hangen arnynt fel eu bod wedyn yn gallu hyfforddi i ragnodi yn y maes hwnnw. Yn ystod ein cyfarfodydd cyn-ymgynghori dywedodd darparwyr cyrsiau rhagnodi annibynnol wrthym fod y gofyniad amser dwy flynedd yn amhriodol, am dri rheswm:

1. Efallai bod ymgeisydd wedi gweithio mewn maes am ddwy flynedd ond efallai na fydd wedi caffael y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hyfforddi fel rhagnodydd annibynnol.
2. Weithiau mae darparwyr yn teimlo rheidrwydd i dderbyn ymgeiswyr ar sail amser mewn gwasanaeth yn hytrach na phrofiad a enillwyd.
3. Nid oedd cyfiawnhad gwrthrychol dros gael dwy flynedd fel y gofyniad amser.

Rydym yn derbyn y tri phwynt hwn ac yn cynnig dileu'r gofyniad amser dwy flynedd ar gyfer hyfforddi. Rydym yn cynnig ei ddisodli gyda gofyniad ar gyfer addasrwydd a pherthnasedd profiad ymgeisydd i gael ei gyflwyno a'i ddilysu fel rhan o'r broses gais.

C10a: A ddylai'r gofyniad amser dwy flynedd presennol ar gyfer hyfforddi gael ei ddileu a'i ddisodli gyda gofyniad ar gyfer addasrwydd a pherthnasedd profiad ymgeisydd i gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo fel rhan o'r broses gais?

- ☐ Dylai
- ☐ Na ddylai
- ☐ Dim yn gwybod

C10b: Esboniwch eich ymateb

Adran 5: Effaith y safonau

Rydym eisiau deall a allai ein safonau wahaniaethu yn erbyn neu anfanteisio'n anfwriadol unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n rhannu unrhyw nodweddion gwarchodedig yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y nodweddion hyn yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

C11: Ydych chi'n credu bod unrhyw beth yn y safonau neu'r newidiadau arfaethedig a fyddai'n effeithio – yn gadarnhaol neu'n negyddol – ar unigolion neu grwpiau penodol sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig a restrir uchod?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Dim yn gwybod

(Os ydych wedi ateb 'Nac ydw' neu 'Dim yn gwybod', ewch i **gwestiwn 12**)

C11a Disgrifiwch yr effaith a'r unigolion neu'r grwpiau perthnasol

C12 Ydych chi'n credu bod unrhyw beth yn y safonau neu'r newidiadau arfaethedig a fyddai'n effeithio – yn gadarnhaol neu'n negyddol – ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Dim yn gwybod

(Os ydych wedi ateb 'Nac ydw' neu 'Dim yn gwybod', ewch i **gwestiwn 13**)

C12a: Disgrifiwch yr effaith a'r unigolion neu'r grwpiau eraill perthnasol

Adran 6: Sylwadau eraill

C13: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y safonau hyn neu'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig?

Monitro cydraddoldeb

Yn y CFfC rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr gweithwyr iechyd proffesiynol, a gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgynghoriad ar safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni fel y gallwn wirio bod hyn yn digwydd.

Ni chaiff eich atebion eu cysylltu i'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Nid oes yn rhaid i chi ateb y cwestiynau hyn os byddai'n well gennych beidio.

Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Arall

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

Ticiwch un blwch

- ☐ Heterorywiol/syth
- ☐ Menyw hoyw /lesbiad
- ☐ Dyn hoyw
- ☐ Deurywiol
- ☐ Arall
- ☐ Gwell gennyf beidio dweud

A ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Diffinnir anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel "amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau arferol bob dydd". Ticiwch un blwch.

- ☐ Ydw
- ☐ Nac Ydw
- ☐ Gwell gennyf beidio dweud

Beth yw eich grŵp oedran?

Ticiwch un blwch

- ☐ 16 – 24 oed
- ☐ 25 – 34 oed
- ☐ 35 – 44 oed
- ☐ 45 – 54 oed
- ☐ 55 – 64 oed
- ☐ 65 + oed

Beth yw eich grŵp ethnig?

Dewiswch y blwch priodol i ddynodi eich cefndir diwylliannol. Ticiwch un blwch.

Gwyn

- ☐ Prydeinig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- ☐ Cefndir gwyn arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Du neu Ddu Prydeinig

- ☐ Du Caribïaidd
- ☐ Du Affricanaidd
- ☐ Cefndir du arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Cymysg

- ☐ Gwyn a Du Caribïaidd
- ☐ Gwyn a Du Affricanaidd
- ☐ Gwyn ac Asiaidd
- ☐ Unrhyw gefndir cymysg arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- ☐ Indiaidd
- ☐ Pacistani
- ☐ Bangladeshi
- ☐ Asiaidd arall (llenwch y blwch ar ddiwedd yr adran hon)

Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig

- ☐ Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig

Arabaidd

- ☐ Arabaidd

Arall

- ☐ Gwell gennyf beidio dweud
- ☐ Unrhyw gefndir ethnig arall (rhowch fwy o wybodaeth yn y blwch isod)

Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- ☐ Bwdhydd
- ☐ Cristion
- ☐ Hindŵ
- ☐ Iddew
- ☐ Mwslim
- ☐ Sîc
- ☐ Dim
- ☐ Arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)
- ☐ Gwell gennyf beidio dweud

Atodiad A: Cwestiynau'r ymgynghoriad wedi'u coladu

Adran 1: Deilliannau dysgu

C1: Gan ystyried y set lawn o ddeilliannau dysgu yn Rhan 1 y safonau addysg a hyfforddiant drafft hyn, i ba raddau ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r deilliannau dysgu mwyaf priodol ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi?

C2: A oes unrhyw beth ar goll o'r deilliannau dysgu yn Rhan 1?

C2a: Ym mha rai o'r meysydd canlynol ydych chi'n credu bod rhywbeth ar goll? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Gofal wedi'i ganoli ar yr unigolyn
- Proffesiynoldeb
- Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
- Cydweithio
- Arall

C2b: Rowch ddisgirfiad byr o'r bwlch neu'r bylchau yr ydych wedi eu canfod

C3: A oes unrhyw beth yn y deilliannau dysgu yn Rhan 1 a ddylai gael ei newid?

C3a: Rhowch fanylion y deilliannau dysgu y byddech yn eu newid a pham (os yn bosibl, rhowch rifau cyfeirnod y deilliannau dysgu)

C4: Rhowch unrhyw adborth arall yn esbonio eich ymatebion i'r cwestiynau ar y deilliannau dysgu (Pwysig: Rhowch adborth cadarnhaol a negyddol pa fo hynny'n berthnasol)

Adran 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau

C5: Gan ystyried y set lawn o safonau yn Rhan 2, i ba raddau ydych chi'n credu mai'r rhain yw'r safonau priodol ar gyfer cwrs fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol?

C6: A oes unrhyw beth ar goll o'r safonau neu'r meini prawf yn Rhan 2?

C6a: Ym mha rai o'r meysydd canlynol ydych chi'n credu bod rhywbeth ar goll? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Parth 1 – Gofynion dewis a mynediad
- Parth 2 – Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Parth 3 – Rheolaeth, adnoddau a gallu
- Parth 4 – Monitro, adolygu a gwerthuso
- Parth 5 – Dyluniad a chyflwyniad cwrs
- Parth 6 – Dysgu wrth ymarfer
- Parth 7 – Asesu
- Parth 8 – Cefnogaeth a'r profiad dysgu
- Parth 9 – Ymarferwyr rhagnodi dynodedig
- Arall

C6b: Rowch ddisgirfiad byr o'r bwlch neu'r bylchau yr ydych wedi eu canfod.

C7: A oes unrhyw beth yn y safonau neu'r meini prawf yn Rhan 2 a ddylai gael ei newid?

C7a: Rhowch fanylion y safonau neu'r meini prawf y byddech yn eu newid a pham (os yn bosibl, rhowch rifau cyfeirnod y safon neu'r meini prawf).

C8: Rhowch unrhyw adborth arall yn esbonio eich ymatebion i'r cwestiynau ar y safonau a'r meini prawf (Pwysig: Rhowch adborth cadarnhaol a negyddol pa fo hynny'n berthnasol)

Adran 3: Goruchwylio fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n ymarfer

C9a: A fydd Parth 9 yn sicrhau mai dim ond rhagnodwyr annibynnol profiadol ac sydd wedi'u hyfforddi'n briodol fydd yn gweithredu fel goruchwylwyr dynodedig ar gyfer elfen dysgu wrth ymarfer rhaglenni fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol?

C9b: Esboniwch eich ymateb

Adran 4: Amodau mynediad ar gyfer hyfforddiant

C10a: A ddylai'r gofyniad amser dwy flynedd presennol ar gyfer hyfforddi gael ei ddileu a'i ddisodli gyda gofyniad ar gyfer addasrwydd a pherthnasedd profiad ymgeisydd i gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo fel rhan o'r broses gais?

C10b: Esboniwch eich ymateb

Adran 5: Effaith y safonau

C11: Ydych chi'n credu bod unrhyw beth yn y safonau neu'r newidiadau arfaethedig a fyddai'n effeithio – yn gadarnhaol neu'n negyddol – ar unigolion neu grwpiau penodol sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion gwarchodedig a restrir uchod?

C11a Disgrifiwch yr effaith a'r unigolion neu'r grwpiau perthnasol

C12 Ydych chi'n credu bod unrhyw beth yn y safonau neu'r newidiadau arfaethedig a fyddai'n effeithio – yn gadarnhaol neu'n negyddol – ar unrhyw unigolion neu grwpiau eraill?

C12a: Disgrifiwch yr effaith a'r unigolion neu'r grwpiau eraill perthnasol

Adran 6: Sylwadau eraill

C13: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am y safonau hyn neu'r newidiadau yr ydym yn eu cynnig?

Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2018

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F **020 3713 8000**
E **info@pharmacyregulation.org**

@TheGPhC
TheGPhC
/company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org